# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 3ydd o Chwefror 2022 drwy Zoom yn brydlon am 8.15 o'r gloch.**

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Anwen Jones, Thomas Prys Jones, Sian Angharad Parry, Trefor Wyn Jones, Naomi Jones, Darren Morley, Gareth O.Davies, Angela Williams, Margaret Griffith, Aled Davies, William Ifor Hughes a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, Ceri Jones, a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed o Ionawr 2022. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Ionawr 2022 – (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 03.02.2022).

4. **Datgan buddiant personol**, - (roedd y Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod).

**Cynghorydd Tegid Jones** – datgan buddiant personol rhif:-
6(b) Cais Cynllunio Tafarn y Plu oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr Menter y Plu.
26(ff) cais ariannol Menter y Plu am yr un rheswm.
26(b) – Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy – oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Anwen Jones** – datgan buddiant personol rhif:-
6(b) Cais Cynllunio Tafarn y Plu oherwydd bod aelod agos o'r teulu yn gadeirydd Menter y Plu a
26(ff) cais ariannol Menter y Plu am yr un rheswm.
26(b) – Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy – oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Thomas Prys Jones** – datgan buddiant personol rhif:-
26( c) – Cais ariannol Mynwent Capel Helyg, Llangybi – oherwydd ei fod yn un o ymddiriedolwyr y Fynwent.

**Cynghorydd Naomi Jones** – datgan buddiant personol rhif:-
6(b) Cais Cynllunio Tafarn y Plu oherwydd bod ei gwr yn Gadeirydd Menter y Plu a
26(ff) cais ariannol Menter y Plu am yr un rheswm.
26(b) – Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy – oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Darren Morley** – datgan buddiant personol rhif:-
26(dd) – Cais ariannol Clwb Peldroedd Llanystumdwy – oherwydd bod ei frawd yn gadeirydd y Clwb Peldroed.
26(ll) – Cais ariannol Clwb Snwcer Chwilog – oherwydd ei fod yn gadeirydd y Clwb Snwcer.

**Cynghorydd Aled Davies** - datgan buddiant personol rhif:-
26(ch) Cais ariannol Mynwent Newydd Chwilog – oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Angela Williams**- datgan buddiant personol rhif:-
26(e ) – Cais ariannol Cylch Meithrin Llangybi – oherwydd ei bod yn gysylltiedig â'r ysgol.

26(g) Cais ariannol O Ddrws I Ddrws – oherwydd ei bod ar bwyllgor O Ddrws I Ddrws.

**Cynghorydd Sian Parry** – datgan buddiant personol rhif:-
26(b) Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei bod ar bwyllgor y Fynwent.
**Cynghorydd Gareth Davies** - datgan buddiant personol rhif:-
26(b) Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei fod ar bwyllgor y Fynwent.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**
**Rhybudd Cau Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Pencaemelyn,Llanystumdwy ar 15.02.2022** – adnewyddu polion a gwaith ar geblau ar ran BT Openreach. **Derbyn**

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais rhif: C21/1240/41/AC – Bryn Hyfryd, Chwilog** – diwygio amod 2 ar ganiatâd cynllunio C18/1055/41/LL i ymestyn amser cyflwyno materion a gadwyd yn ol. **Dim gwrthwynebiad.**

b) **Cais rhif: C22/0028/41/CR - Tafarn Y Plu, Llanystumdwy –** dymchwel estyniad unllawr tó fflat modern a chodi estyniad newydd unllawr tó 'pits/pitch' gydag addasiadau mewnol ac allanol i'r adeilad. **Cefnogi**

7. **Gronfa Cymunedau Mentrus**, - ebost gan Swyddog Cefnogi Cymunedau, Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd yn egluro fod y gronfa wedi ei sefydlu er mwyn cynyddu gallu cymunedau i arwain, mentro a chyflawni, ac fe all Cynghorau Cymuned a Thref wneud cais i'r gronfa yma. Mae'r gronfa yma yn cynnig cyfleoedd i gynghorau a grwpiau cymunedol i ymgeisio am arian refeniw ar gyfer hyfforddiant neu ddatblygu cynlluniau.

Am arweiniad pellach, gellir trefnu sgwrs ffôn/rhithiol neu ymuno mewn cyfarfod o'r cyngor i gynnig rhagor o arweiniad a chefnogaeth. Mae'r dyddiad cau i geisiadau 28.02.2022.
**Gofynwyd i'r Clerc holi i weld os byddai'n bosib gwneud cais am arian ar gyfer efallai cael hysbysbfwrdd yn sôn am hanes Capel Pencaenewydd a Chapel y Beirdd a oedd yn dathlu 100 mlwyddiant eleni, sef Capel Pencaenewydd a Chapel y Beirdd.**

**Hefyd, efallai cael mwy o arwyddion ar groesffyrdd yn yr ardal, er mwyn cadw'r enwau lleol y fyw, a'i defnyddio ar lafar.**
8. **Delwedd** – ymholiad ganddynt yn gofyn tybed a fyddai Pwyllgor Safle'r Wé yn hoffi trafod ail wampio'r wefan. **Y wybodaeth angenrheidiol ar y wefan fel ag y mae, felly dim angen ei newid ar hyn o bryd.**

9. **Un Llais Cymru** - **codi ymwybyddiaeth/hyrwyddo – Cynghorwyr Cymuned a Thref**
Mae Un Llais Cymru - gyda chymorth Llywodraeth Cymru - wedi cyhoeddi fideo i hyrwyddo ac annog unigolion i gyflwyno eu henwau yn ymgeisyddion ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned a thref a gynhelir ym mis Mai 2022. Mae'r fideo ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae angen tynnu sylw atynt e.e. drwy gyhoeddi y linc iddynt ar ein safle Wé. **Ei osod ar ein gwefan.**

**Materion yn y gymuned**.

10. **Llanystumdwy**

a) **Parcio gyferbyn tai Maen y Wern ac i fyny am Tý Newydd** – problem fod trigolion sydd yn byw yn y tai yn parcio ar y lon gul yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio. Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn gofyn am y posiblrwydd o gael llinnellau melyn yno. **Dal heb gael ateb eto.**

b) **Afon Llanystumdwy** – derbyniwyd sylwadau mai un darn o bren oedd yn croesi'r ffos gyntaf ar hyd y llwybr ger yr afon, ar ol pasio'r Bedd. Mae'n debyg fod dau ddarn coedyn ('slipan lein') yno cynt. Hefyd, nodwyd fod coeden wedi prydru ac yn pwyso ar goeden arall gerllaw**. Y Clerc wedi siarad hefo Mr Dewi Owen, gan ddweud fod contractwr wedi prisio'r gwaith, wedi archebu coedyn arall, ac yn meddwl rhoi canllaw ac efallai 'ramp' yno. Roeddent hefyd am fynd i weld y goeden oedd wedi syrthio gerllaw. Derbyn.**

c) **Llwybr yr arfordir rhwng Ynysgain Fawr a cheg yr afon Dwyfor**, - erydiad y tir yn bwyta mewn i'r llwybr troed, ac angen clirio'r eithin. **Clerc anfon llythyr ac wedi siarad hefo Mr Dewi Owen, ac roedd am fynd i weld y lleoliad.**

ch) **Llwybr cyfochrog a wal Ynysgain Bach,** - edrych fel bod peipen draen wedi malu ac yn anfon dwr ar hyd y llwybr, yn ei wneud yn fwdlyd, efallai bod angen gosod cerrig yno? **Clerc wedi anfon llythyr ac wedi siarad hefo Mr Dewi Owen, ac roedd am fynd i weld y lleoliad.**

11. **Rhoslan/Ynys**
**Gwinllan Rhos Ddu** -treth dalwyr o'r tai yn yr Ynys yn mynegi pryderon ynglŷn â beth sy'n mynd ymlaen yn Winllan Rhos Ddu.
Wedi derbyn ateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud ei fod wedi ymweld â Gwinllan Rhos Ddu yn gynnar yn y flwyddyn newydd i weld lle mae'r perchennog wedi torri'r coed i greu y llynnoedd. Derbyniwyd y wybodaeth isod ganddo yn dilyn ei ymweliad, sef ei fod wedi rhoi 'advice and guidance over volume ' i'r perchennog sydd wedi torri coed i wneud y llyn newydd. Dywedodd fod hyn yn wahanol i roi 'cyngor ac arweiniad' oherwydd cafodd y drosedd ei gofnodi rhag ofn y byddai trosedd arall yn y dyfodol. **Derbyn y wybodaeth, ond angen holi Cyngor Gwynedd, Adran Gorfodaeth i ofyn am ymateb i'r llythyr anfonwyd atynt fis Tachwedd 2021, yn holi am y datblygiadau sydd yno. Clerc i holi eto.**

**12. Chwilog**
a) **Ffos rhwng Tyddyn Heilyn a Chwilog Fawr** – mae ffos ddyfn ar hyd y lon gul, ar y chwith am gyfeiriad Chwilog. Mae cerbydau yn gorfod bagio nol weithiau ac yn mynd yn sownd yn y ffos, ac yn gorfod cael cymorth i gael ei tynnu'n rhydd gan dractorau ffermwyr lleol. Byddai'n haws gosod peipen ddraen yn y ffos, a gorchuddio'r ffos fel nad oes peryg i gerbydau fynd i drafferth. **Heb dderbyn ymateb eto, Clerc i holi eto.**

b) **Cilbost Bryn Gwdyn, ger Ffatri Laeth, Chwilog** – wedi cael ei godi o'r newydd ac yn ymddangos yn rhy agos i'r lon fawr, a thybed ydynt wedi cael caniatad gan yr Adran Priffyrdd i ledu'r fynedfa ar lon mor brysur.
Wedi derbyn yr ateb isod gan Mr Gareth Roberts, Peirianydd ardal Dwyfor,
"Yn dilyn ymweliadau safle gan swyddogion o'r adran rwyf yn fodlon nad yw'r cilbyst yn ymwthio neu'n amharu a'r briffordd. Er yn agos at ymyl y briffordd, nid ydynt yn dechnegol o fewn oel troed y briffordd, ond wedi'u leoli ar yr ymylon ac o fewn perchnogaeth y tirfeddiannwr cyfagos fel pob terfyn arall yn gyffredinol.
Rwyf eisoes wedi dod a'r gwaith o ledu'r adwy i sylw'r Adran Gynllunio a'r Uned Gwaith Stryd, am ymchwil a gweithred pellach". **Derbyn.**

c) **Bodeuron, Chwilog** – nifer o drigolion pentref Chwilog yn cwyno fod llanast o flaen y tŷ yng nghanol y pentref ers misoedd lawer. Mae'r tŷ yn cael ei osod i ymwelwyr, ac nid yw'r sbwriel yn cael ei gasglu'n rheolaidd, oherwydd mae'n debyg mai cwmni preifat sydd o bosib yn gyfrifol am wagio'r biniau.
Mae cymdogion yn boenus iawn am y sefyllfa, yn methu cysylltu hefo'r perchennog, ac yn ofni bydd llygod yn cael ei denu yno. Derbyniwyd ymateb gan Mr Philip Pritchard, Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd yn dweud ei fod wedi mynd yno ar 20.01.2022, "ac roedd y lleoliad wedi tacluso - gweithwyr glanhau yno - deallaf nad oedd y cwmni casglu wedi medru galw yno oherwydd prinder gyrrwyr - gobeithio bod y sefyllfa wedi datrys rŵan". **Derbyn y wybodaeth ond mae angen cadw golwg ar y broblem.**

ch) **Hen 'londri', Afonwen** – angen holi beth sydd yn digwydd yno, oherwydd mae yna hen danciau 'disel'a phethau felly yn y ddaear yno ac mae angen bod yn ofalus iawn hefo unrhyw dyllu. Mae yna ffens wedi ei osod o amgylch y safle, digar, a gwaith yn cael ei wneud yno. **Angen cysylltu hefo'r Cyngor, ac mae'r afon y pasio gerllaw rhag ofn.**

d) **Sbwriel ar ochr y ffordd rhwng y Ffôr a Chwilog**. Angen holi i'r adran berthnasol i gael rhywun i'w casglu.

**13. Pencaenewydd/Sardis**
a) **Lloches bws Trallwyn** – mae'r sedd newydd wedi cael archebu a bydd yn cael ei gosod cyn gynted a phosib. **Derbyn**.

b) **Clwy coed onnen** 'ash die back' – ger giat Fferm Pencaenewydd, giat Tanllyn i Drofa, a groeslon Lodge Trallwyn. **Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i'w hysbysu.**

c) **Safle pasio, 'lay by'-** y Clerc wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd am fwy o safleoedd pasio i gerbydau rhwng Sardis i Pensarn, Mynachdy Bach ac i'r tro am Llanaelhaearn. **Y Clerc wedi derbyn yr ymateb yma ar yr 02.07.2021 gan yr Adran Priffyrdd.**
*"Ymddiheuraf am yr oedi mewn ymateb ond fe ddaw swyddog mewn cyswllt gyda chi cyn gynted a bo'r gwaith arwisgo wedi cael ei gwblhau."* **Y Clerc wedi gofyn am ddiweddariad eto.**

**Llangybi**
14. **Fronheulog, Llangybi** - trigolion lleol yn anesmwyth ynglyn a'r cerrig sy'n disgyn i'r ffordd o wal yr ardd yng nghanol y pentref ac ofnir bod y coed bytholwyrdd tal sydd yn yr ardd ger y ffordd yn ansefydlogi'r wal, ac y gallai'r cerrig achosi difrod/damwain i deithwyr. **Clerc heb dderbyn ateb gan Cyngor Gwynedd, ond dywedwyd yn y cyfarfod fod y wal wedi cael ei chodi rwan.**

15. **Coedwigoedd ger Ynys Creua** – problemau isod mewn cysylltiad â choedwigoedd Ynys Creua.
Mae 3 coedwig yno, ac mae ymholiadau wedi ei derbyn gan aelodau o'r cyhoedd yn tynnu sylw at y ffeithiau isod:-

- Llawer o weithgaredd yno, coed wedi cael ei torri
- Mae mynedfeydd newydd wedi cael ei gwella yno,
- Blwch post, giatiau wedi cael ei cloi, cwt a charafan yno.
- Enwau newydd wedi cael ei gosod wrth y mynedfeydd – Coed Wen, Coed Siriol.

Tybed a oes ganddynt hawl i wneud y newidiau yma heb ganiatâd, a beth yn union sydd yn mynd ymlaen yno?
Cwestiwn y trethdalwyr oedd tybed a oes angen caniatad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith fel hyn, neu gais cynllunio hyd yn oed. Y Clerc wedi holi Cyfoeth Naturiol Cymru ac Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd. **Derbyniwyd ateb gan Mr Martyn Parr, Cyfoeth**

**Naturiol, yn dweud fod yna sawl perchennog ar y safle a bod trwyddedau torri coed yno. Dywedodd ei fod wedi ymweld â'r safle a bod llawer o goed wedi cael ei chwythu lawr, a bod yna waith ei 'clirio' yno. Dywedodd fod perchennog yn gallu ei 'clirio' heb ganiatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd dywedodd ei bod yn gallu torri coed os oeddent yn llai na 5 medr ciwb heb ganiatad. Dywedodd nad oedd trosedd wedi ei gyflawni yno, ond byddai'n hysbysu'r perchenogion ei fod wedi bod yno, ac yn ei hysbysu o'r rheolau.**

16. a. **Canolfan Iechyd Cricieth** – y fferyllfa o fewn y ganolfan wedi cau yn ddisymwth, heb roi rhybudd i'r cleifion/cyhoedd sydd yn mynd yno. Mae ein aelod lleol, y Cynghorydd Aled Lloyd Evans, a rhai o'r cynghorwyr eraill wedi derbyn sawl ymholiad ynglyn â hyn, ac yn siomedig fod hyn wedi digwydd, heb gyfnod ymgynghori na thrafod â'r cyhoedd. Bydd hyn yn creu anhwylustod wrth orfod mynd i'r fferyllfa sydd ar y Stryd Fawr, a bydd yn anodd cael lle i barcio yn enwedig yn yr haf.

Gwnaed hefyd sylw at y ffaith beth oedd yn digwydd i'r staff oedd yn gweithio yn y Fferyllfa. Hefyd, holwyd os oes gwasanaeth danfon 'presgripsiwn' i gleifion yng Nghricieth fel ag sydd ym Mhwllheli? Derbyniwyd yr ateb isod gan Rheolwr Canolfan Iechyd Cricieth:-

"Yn anffodus ni fydd y gwasanaeth dosbarthu yn Hwb Iechyd Eifionydd (Criccieth a Phorthmadog), sydd ar gau ar hyn o bryd oherwydd prinder staff, yn ail-agor yn dilyn cytundeb gan Banel Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd. Bydd presgripsiynau felly'n cael eu dosbarthu o'r fferyllfa gymunedol.

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, roeddem o'r farn bod y gofyniad i gynnal lefelau staffio practis/fferyllfa cymwysiedig yn heriol gan fod nifer o staff wedi gadael eu swyddi yn ystod y misoedd diwethaf. Mae yna pob amser risg sylfaenol o gamgymeriadau dosbarthu ac mae'r pwysau sylweddol, a brofir ar hyn o bryd gan ein Arweinydd Clinigol, yn creu pryder difrifol i oruchwylio a llywodraethu'r fferyllfa.

Mi fydd gan y Fferyllfeydd Cymunedol fferyllydd cymwysiedig ar y safle i roi cyngor ac arweiniad mewn perthynas â chyffuriau ar bresgripsiwn yn ogystal â gallu darparu ystod o wasanaethau iechyd ychwanegol a gwasanaeth dosbarthu i gleifion chwe diwrnod yr wythnos lle bo angen. Mae rhai fferyllfeydd hefyd yn cynnig gwasanaeth dosbarthu i'r drws.

Oherwydd y rhybudd byr o'r penderfyniad hwn, rydym wedi gosod posteri y tu mewn a thu allan i'r practis, ac wedi bod yn cysylltu'n bersonol â'r cleifion a oedd yn arfer cael eu meddyginiaeth o'r ddosbarthfa ac yn rhoi'r dewis iddynt o ble yr hoffent gasglu eu presgripsiwn yn y dyfodol. Mi rydym hefyd yn y broses o ddarparu cylchlythyr i yrru i'n cleifion i'w hysbysu o'r newidiadau sydd wedi cymeryd lle yn y practis yn ddiweddar".

- **Derbyn y wybodaeth, ond fod angen holi eto am y materion isod:-**
- Fod cryn gwyno ymhlith trigolion yn y gymuned nad oedd meddygon sefydlog yng Nghricieth.
- Nodwyd fod doctoriaid 'locum'yno, ond bod un trethdalwr wedi gweld 4 gwahanol o fewn cyfnod o tua 6 wythnos.
- Nodwyd byddai'n well cael fferyllfa gymunedol yn hytrach na defnyddio siop breifat.
- Nodwyd nad oedd gwefan Hwb Iechyd Eifionydd wedi cael ei ddiweddaru i son am y newidiau yma, sef fod y fferyllfa oedd o fewn y ganolfan wedi cau.
- Datganwyd hefyd bryder fod son am 'Pennant Medical Services', yn cael ei gynnal o'r ganolfan, a tybed beth yw ei ról nhw o fewn y Ganolfan yng Nghricieth.

**b. Fferyllfa Pwllheli, sydd ar draws y lon i Treflan** – problemau hefo pobl sydd yn byw tu allan i'r dref yn mynd i nol ei meddyginiaeth, ond yn darganfod nad yw ar gael, felly'n gorfod mynd yno eto ar ddiwrnod arall i'w nol. Mae hyn yn anhwylus, ac yn creu costau. **Angen cysylltu hefo'r feddygfa i wneud ymholiadau.**

17. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 03.02.2022, ac arolwg o'r gwariant tebygol erbyn 31.03.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Y Clerc wedi mynd a'r biliau i gyd at y Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod. Hefyd, fe wnaeth ddangos y ceisiadau ariannol i'r Cadeirydd o flaen y cyfarfod. **Derbyn**.

18. **Archwiliad allannol – cyfrifon 2020 - 2021.** – Y Clerc heb dderbyn ymateb gan yr Archwilwyr Allanol eto, ond ar ol cysylltu hefo Un Llais Cymru dywedwyd fod pob cyngor arall drwy Gymru yn yr un sefyllfa, ac y byddent yn cael ei dychwelyd dros yr wythnosau nesaf. **Derbyn**.

19. **Archwilio mewnol** – penderfynwyd gofyn wrth Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwilio mewnol am y flwyddyn 01.04.2021 - 31.03.2022, ac angen i'r Clerc gysylltu â nhw.

20. **Costau cyfrif banc HSBC** – ers 05.11.2021 mae'r banc yn codi 'ffi am gynnal y cyfrifon' o £5.00 y mis ar y cyfrif cyfredol a'r cyfrif lle mae'r taliad Lightsource yn cael ei dalu. Mae'r Clerc wedi bod yn holi yn y banc i weld os oedd rhaid ei talu, ond dywedwyd fod hyn wedi bod ar y gweill ganddynt ers blynyddoedd a bydd pob banc arall yn gwneud yr un fath yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn gost o £120.00 y flwyddyn rhwng y ddau gyfrif.
Y Clerc wedi holi Un Llais Cymru, a dyma oedd yr ateb:-

"i) O'r hyn a ddeallaf, mae HSBC yn cael gwared ar gyfrifon cymunedol ac maent yn cynnig cyfrifon busnes safonol yn eu lle.

ii) Mae hyn wedi achosi cryn anhapusrwydd ledled y wlad ymhlith grwpiau cymunedol a chymdeithasau yn ogystal â llawer iawn o gynghorau cymunedol.

iii) Mae gennych dri opsiwn:

a) Cadwch y ddau gyfrif a derbyn y taliadau uwch.

b) Cadwch yr incwm o'r fferm solar yn 'ring fenced' yng nghyllideb / cyfrifon eich Cyngor.

c) Agor cyfrifon newydd gyda banc gwahanol.

Mae angen i chi gymryd gofal wrth agor cyfrif banc newydd. Mae'n debygol o fod yn broses hir ac rwy'n amau bod holl brif fanciau'r stryd fawr yn mynd i ddilyn HSBC a chodi mwy."

**Penderfynwyd y byddai'n well i'r Clerc gysylltu hefo Lightsource gan ofyn wrthynt anfon ei taliad blynyddol i'r prif gyfrif cyfredol sydd gan y Cyngor Cymuned o hyn ymlaen, fel ein bod yn gallu cau y cyfrif Lightsource i osgoi talu £5.00 o gostau y mis.**

21. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** - Clerc wedi anfon ebost at Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor i wneud cais. Roedd y cyfanswm gwariant am eleni yn £980.00, ac mae wedi cadarnhau llynedd y byddem yn derbyn ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned o £417.80 eleni (sef yr un ffigwr a llynedd). Mae'r trefniant ad-dalu wedi cael ei gyfyngu i lwybrau categori 1 a 2. **Derbyn**

22. **Praesept 2022-2023** – gohebiaeth wedi ei dderbyn gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn cadarnhau derbyn y ffurflen praesept o £18,360.00 am y flwyddyn 2022-2023. **Derbyn**

23. **Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – y Clerc wedi derbyn ateb gan yr Adran Gwaith Stryd a Goleuo, Cyngor Gwynedd i weld os oedd yn bosib gosod 'diffib.'newydd ger y

lloches bws yn Rhoslan. Derbyniwyd ateb gan Mr Emyr Williams, yn cadarnhau byddai'n gallu trefnu i osod polyn a thrydan i'r 'diffib' yn Rhoslan am bris o £450.00 & TAW. **Angen i'r Clerc ofyn wrthynt wneud y gwaith, ac yna ar ol iddo gael ei osod, gellir penderfynu o ble i archebu'r deffib.**

24. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 03.02.2022:

| **Enw** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| SLCC | Tâl Aelodaeth 01.03.22-28.02.23 | **112.00** | | **112.00** | **112.00** |
| Gareth Jones, Garden Maintenance (844860) | Gofalu am Fedd Lloyd George a'r fynedfa yn ystod 2021 | **250.00** | | **250.00** | **250.00** |
| Y Ffynnon (M 1134) | Hysbyseb | **14.00** | | **14.00** | **14.00** |
| Criccieth Cleaning Ltd. | Glanhau llochesi bws 17.11.21 (3031) | **182.50** | **36.50** | **219.00** | **219.00** |

25. Cyflog mis Rhagfyr 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ionawr 2022<br>35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 -<br>Llai treth £77.40<br>= £309.35 | **309.35** | **309.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Ionawr 2022 | 387.00 x 20% = £77.40 | **77.40** | **77.40** |
| Costau'r Clerc<br>Ionawr 2022 | £16.66 | **16.66** | **16.66** |

26. **CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor – hysbyseb wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr 2021 o'r Ffynnon ac ar yr hysbysfyrddau a'n gwefan gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2022.

Derbyniwyd llythyr/ebost a mantolen ganddynt. Cytunwyd i dalu'r symiau isod ar y noson (drwy fod yn deg ac edrych ar angen presennol pob un).
Gwnaeth y Clerc anfon ffurflen o flaen y cyfarfod at y cynghorwyr yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan y gwahanol fudiadau am ofyn am gymorth ariannol, ac fe ddangoswyd y ceisiadau papur i gyd i'r Cadeirydd ar 03.02.22.
Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Busnes a gafodd ei gynnal ar 04.11.2021, cytunwyd i wario swm tebyg i llynedd, ond ei fod yn anodd gwybod faint o geisiadau a ddaw am gymorth ariannol eleni. *(Uchafswm gwariant o £8.82 x 1518 o boblogaeth cymuned Llanystumdwy=£13,388.76*)

Mae **<u>£1000.00</u>** eisioes wedi cael ei dalu i **<u>Neuadd Llanystumdwy ar 11.09.2021 tuag at y diffibileiddiwr,</u>** a **<u>£376.22 at Wifi Neuadd Chwilog</u>** ar 06.01.2022 (y ddau daliad o'r cyfrif Budd-cymunedol)

| **<u>26.</u>** | **<u>2022 – Derbyniwyd cais 15 gan:-</u>** | **Taliad i'w wneud drwy BACS £** | **Cynghorwyr yn ymneilltuo** |
|---|---|---|---|
| (a). | Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi | 500.00 | Neb |
| (b). | Mynwent Newydd Llanystumdwy | 1000.00 | Sian Parry, Naomi Jones, Anwen Jones, Tegid Jones, Gareth Davies a Darren Morley |
| (c). | Mynwent Capel Helyg, Llangybi | 500.00 | Thomas Prys Jones |
| (ch). | Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog | 1000.00 | Aled Davies |
| (d). | Capel Pencaenewydd – wedi derbyn cais gan y Capel nid Cymdeithas Adloniant y Capel, | 0.00 | Bu'n rhaid ei gwrthod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1894 (adran 6, (1)(a), oherwydd ni chaniateir rhoi arian i Eglwys neu Gapel (wedi cadarnhau hefo Un Llais Cymru) |
| (dd). | Clwb Peldroed Llanystumdwy | 500.00 | Darren Morley |
| (e). | Cylch Meithrin Llangybi | 1000.00 | Angela Williams |
| (f). | Cylch Meithrin Chwilog | 1000.00 | |
| (ff). | Menter y Plu | 300.00 (s) | Tegid Jones, Naomi Jones, Anwen Jones |
| (g). | O Ddrws I Ddrws | 500.00 | Angela Williams |
| (ng). | Dawns i Bawb | 0.00 | |
| (h). | Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | 100.00 | |
| (i). | Tý Gobaith | 50.00 | |
| (l). | Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022, Sir Ddinbych | 0.00 | |
| (ll) | Clwb Snwcer Chwilog | £500.00 | Darren Morley |
| | Cyfanswm a dalwyd | £6,950.00 | Sef £6650.00 o'r cyfrif cyfredol, a £300.00 o'r cyfrif budd-cymunedol. |

Felly am y flwyddyn 2021 – 2022, talwyd y symiau isod fel cymorth ariannol :-

| | | |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | £<br>6,650.00 | Gweler uchod |
| Cyfrif Budd cymunedol | 1,676.22 | £300.00(uchod) &<br>£1000.00 tuag at defib Neuadd Llanystumdwy<br>£376.22 – Wifi Newydd Chwilog<br>*Heb dderbyn manylion Wifi Llanystumdwy na Pencaenewydd eto* |
| Cyfanswm taliadau | **£8,326.22** | |
| | | |

**Materion wedi cyrraedd yn hwyr**- gyda chaniatâd y Cadeirydd cytunwyd i drafod y materion yma ar ddiwedd y noson:-

27. **Lón Goed, ger Cefn Coed, Chwilog** – derbyniwyd cwynion fod cyflwr y darn yma o'r lon, yn mynd i fyny o Chwilog Bach yn ofnadwy o fwdlyd, ac nad oedd yn bosib i gerddwyr fynd ar ei hyd. Deallir fod tractorau yn mynd gwneud gwaith i fynedfeydd y caeau ers tro. **Angen cyfeirio'r mater at Cyngor Gwynedd.**

28. **Cais Amrywiad Trwydded eiddo:- Slim Chicken & Container Bar, Hafan y Mór Pwllheli – Dim gwrthwynebiad.**

Cytuno mai ar nos Iau 03.03.2022, fydd y cyfarfod nesaf.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**